***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 757

# Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019

**Diwygiadau i Atodlen 3**

**17.** Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 13, ar ôl "staff" ychwaneger "a/neu wirfoddolwr";

(b) ym mharagraff 16, yn lle'r geiriau o "wlser pwyso categori 3 neu 4" i'r diwedd rhodder "niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam";

(c) ym mharagraff 17, yn lle ", anaf neu salwch" rhodder "neu anaf";

(d) ym mharagraff 30, yn lle "Achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn" rhodder "Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn";

(e) ym mharagraff 33, yn lle ", anaf neu salwch" rhodder "neu anaf";

(f) ym mharagraff 34, yn lle'r geiriau o "wlser pwyso categori 3 neu 4" i'r diwedd rhodder "niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam.";

(g) ym mhob un o baragraffau 42, 44 a 46, yn lle "Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn" rhodder "Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn".